

<b>Adroddiad i:</b>	<b>Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>29 Mawrth 2019</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Y Cynghorydd Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2019 / 2020</b>

---

## **1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn sôn am adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) ar gyfer 2019/20.

## **2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1 Lluniwyd yr adroddiad hwn i gynghori ynghylch penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2019/20 mewn perthynas â thaliadau i aelodau ac aelodau cyfetholedig. Cyflwynwyd adroddiadau blynyddol blaenorol y Panel i'r Cyngor llawn, ond mae'r Panel wedi cadarnhau yn ddiweddar nad oedd gwneud hyn, oherwydd mai'r Panel ei hun sy'n nodi penderfyniadau yn hytrach nag awdurdodau lleol.
- 2.2 Mae'r Panel yn caniatáu ychydig o ryddid i awdurdodau lleol ddewis talu swyddi penodol ai peidio. Byddai angen i'r Cyngor llawn awdurdodi unrhyw newid i gynllun talu Sir Ddinbych (swyddi sy'n derbyn cyflog uwch neu ddinesig) sy'n cael ei ganiatáu gan fframwaith y Panel.

## **3 Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1 Bod y Pwyllgor yn nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2019/20 mewn perthynas â thalu cyflogau sylfaenol, uwch a dinesig a thaliadau i aelodau cyfetholedig.
- 3.2 Bod Aelodau yn ystyried y rhestr tâl fel y nodir yn atodiad 1 yr adroddiad ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2019 / 20.

## **4 Manylion yr adroddiad**

- 4.1 Sefydlwyd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn 2008. Cafodd cylch gwaith a swyddogaethau'r Panel eu hystreyn ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae cylch gwaith y Panel yn cynnwys cynghorwyr, aelodau o awdurdodau parciau cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub Cymru a chynghorau tref a chymuned yn ogystal â chynghorau sir a bwrdeistref sirol. Mae'r Panel yn gallu pennu'r swm gwirioneddol y taliad y caiff awdurdod ei wneud i aelod a dyletswyddau a chyfrifoldebau a all wneud cynghorwyr yn gymwys i dderbyn taliadau.
- 4.2 Mae'n ofynnol i'r Panel gynhyrchu adroddiad blynyddol yn nodi lefelau tâl yr aelodau ar gyfer gwahanol ddyletswyddau a chyfrifoldebau ar gyfer blwyddyn y Cyngor i ddod.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu argymhellion y Panel. Mae adroddiad blynyddol 2019 / 20 ynghlwm fel atodiad 2.

- 4.3 Mae adroddiad y Panel yn nodi tri band y Cyngor, yn nodi nifer y Cynghorwyr ym mhob un ac uchafswm nifer yr uwch gyflogau y gall y cyngor perthnasol eu talu. Mae'r grwpiau hyn wedi eu nodi yn Nhabl 1 yr adroddiad blynyddol. Mae Tabl 2 yn nodi'r cyflog sylfaenol ac uwch gyflogau fydd yn daladwy i Aelodau Cynghorau yn 2019 / 20.
- 4.4 Eleni roedd y Panel wedi penderfynu darparu cynnydd o £268 neu 1.97% i £13,868 y flwyddyn i gyflog sylfaenol bob Cynghorydd. Mae'r Panel wedi cynyddu cyflogau uwch aelodau'r Cabinet hefyd o £800 (gan gynnwys y codiad ariannol o £268 ar y cyflog sylfaenol).
- 4.5 Nid oes newid i'r cyflogau uwch eleni ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau, ond byddant yn derbyn cynnydd i'w cyflogau sylfaenol, sy'n daladwy i bob Cynghorydd.
- 4.6 Mae'r Panel wedi nodi dymuniadau cryf y cynghorau i'r Panel osod taliadau ar gyfer cyflogau dinesig (ar gyfer Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor). Yn flaenorol, mae'r Panel wedi caniatáu i'r Cyngor ddewis o 3 gyfradd taliadau. Nawr, mae'r Panel wedi penderfynu y bydd Cadeirydd y Cyngor yn derbyn £22,568 a'r Is-gadeirydd yn derbyn £17,568 – yn cynnwys y cyflog sylfaenol. Mae hyn gyfwerth â chyfraddau Band 3 a Band 5 yn ôl ei gilydd.
- 4.7 Mae'r Panel yn bendant o'r farn nad yw cynnal gwerthoedd democrataidd llywodraeth leol yn ddigost. Mae tâl a ariennir yn gyhoeddus ar gael i annog amrywiaeth o bobl leol bodlon a medrus i ymgymryd â rôl mewn llywodraeth leol, drwy eu swyddogaethau etholedig, penodedig neu gyfetholedig.
- 4.8 Pan wnaeth y Panel ei benderfyniadau cychwynnol yn ei adroddiad yn 2009 roedd wedi alinio taliadau i Aelodau gydag enillion gros canolig holl weithwyr llawn amser a oedd yn byw yng Nghymru ac roedd y cyflog sylfaenol wedi'i osod ar  $\frac{3}{5}$  o gyflog canolig Cymru Gyfan. Daeth y Panel i'r casgliad y dylid ystyried swyddi Aelodau'r Cabinet yn rhai llawn amser. Wrth osod y cyflogau hyn, roedd y Panel yn cydnabod bod cyfraniad gwasanaeth cyhoeddus di-dâl.
- 4.9 Band Cyflog Uwch 1 a 2 - Mae'r Panel wedi penderfynu ar bum band o Uwch Gyflog. Mae Band 1 yn cynnwys yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd ac mae Band 2 yn cynnwys Aelodau eraill y Cabinet. Mewn trafodaethau'r Panel gydag Aelodau etholedig ar draws Cymru yn 2013 ac 2017 y farn yn gyson oedd mai arweinwyr a dirprwy arweinwyr gyda rolau gweithredol oedd â'r atebolrwydd mwyaf. Hefyd cafodd y Panel sylwadau bod yr atebolrwydd yn aml yr un fath beth bynnag yw maint y boblogaeth a wasanaethir gan y Cyngor. Mae'r Panel o'r farn bod maint y boblogaeth yn parhau i fod yn ffactor fawr wrth ddylanwadu ar lefelau cyfrifoldeb ac mae'r Panel felly wedi dewis cadw'r 3 grŵp poblogaeth (A, B a C) fel y nodir yn Nhabl 4 a 5 yr adroddiad blynyddol at ddibenion gosod nifer y cyflogau uwch sydd ar gael a lefel y Cyflogau Uwch ym Mandiau 1 a 2.

Dylid nodi, er mwyn arbed arian, mae Sir Ddinbych wedi dewis penodi ar gyfer 8 swydd Cabinet yn hytrach na'r uchafswm o 10 swydd, sy'n arwain at ystod ehangach o gyfrifoldebau portffolio ar gyfer pob Aelod Cabinet.

- 4.10 Band 3 - Ar gyfer 2019/20 bydd cadeiryddion pwyllgorau (os ydynt yn derbyn tâl) yn cael tâl o £22,568 (yn cynnwys cyflog sylfaenol). Yn achos Sir Ddinbych mae llai o

bwyllogorau archwilio nag yn y rhan fwyaf o awdurdodau eraill a dylid cydnabod pwysigrwydd rolau cadeirio ar gyfer pwyllgorau eraill megis y Pwyllgorau Cynllunio a Thrwyddedu.

Mae Sir Ddinbych wedi gosod nifer ei uwch-daliadau (nifer y lwfansau Cabinet a chadeirydd pwyllgor sy'n cael eu talu) 2 yn is na'r uchafswm a ganiateir gan y Panel ar gyfer awdurdod o faint Sir Ddinbych.

- 4.11 Band 4 a 5 - Mae'r Panel wedi bod o'r farn bod talu arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf yn bwysig i ddemocratiaeth leol. Felly, mae'r Panel wedi parhau â'u penderfyniad blaenorol bod rhaid i'r Uwch Gyflog hwn (band 4) gael ei dalu. Mae'r taliad yn cyfateb i'r lefel tâl i gadeiryddion pwyllgorau. Mae'r Panel wedi nodi'n flaenorol mai ychydig iawn o arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill sydd wedi cael cyflog yn awdurdodau Cymru. Mae'r Panel wedi penderfynu, lle telir cyflogau o'r fath, dylai'r lefel fod yn £17,568 y flwyddyn fel y nodir yn Nhabl 5.
- 4.12 Aelodau Cyfetholedig gyda Hawliau Pleidleisio – Mae Tabl 8 yn adroddiad y Panel yn nodi bod y ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig sydd â'r hawl i bleidleisio yn aros yn ddigyfnewid ers y llynedd ac yn seiliedig ar lwfans mynychu ac amser a ymrwymir hyd at 4 awr (ffi hanner diwrnod) neu dros 4 awr (ffi ddyddiol). Mae'r Panel yn caniatáu i aelodau cyfetholedig â hawl pleidleisio gynnwys amser teithio ac amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn cyfarfod.
- 4.13 Mae aelodau cyfetholedig hefyd yn gymwys i dderbyn taliadau ffioedd am fynychu cyfarfodydd gweithgor, cyfarfodydd gyda swyddogion, hyfforddiant a mynychu cynadleddau neu unrhyw gyfarfodydd ffurfiol eraill y maent wedi cael gwahoddiad i'w mynychu gan y Cyngor fel rhan o'u rolau cyfetholedig.
- 4.14 Cyfraddau Milltired - dim ond ad-dalu costau teithio ar gyfer eu haelodau sy'n ymgymryd â busnes swyddogol y gall yr Awdurdod ei wneud. Nid fydd unrhyw newid i'r cyfraddau milltired. Mae'r Panel wedi penderfynu y dylai aelod sydd wedi bod yn deithiwr mewn cerbyd sy'n cael ei yrru gan rhywun arall gael ei dalu ar y gyfradd rhagnodedig ar yr amod bod yr awdurdod yn fodlon bod y gost wedi cael ei wario gan yr aelod.
- 4.15 Aelod sy'n Llywyddu – Mae Deddf Democratiaeth Llywodraeth Leol 2013 yn caniatáu i awdurdodau lleol benodi aelod sy'n llywyddu a fyddai'n cadeirio'r cyfarfodydd busnes y Cyngor yn ogystal ag arweinydd dinesig. Gall y Cyngor hefyd benodi dirprwy aelod llywyddu. Lle maent wedi'u penodi, bydd aelod sy'n llywyddu yn cael ei dalu ar lefel Band 3 (cyflog cadeirydd pwyllgor) a bydd y swydd yn cyfrannu tuag at y cap ar nifer y cyflogau uwch y gellir eu talu. Ni fyddai swydd dirprwy aelod llywyddu yn derbyn taliad.
- 4.16 Cydbwyllgorau Craffu– Gall dau awdurdod neu fwy sefydlu cydbwyllgorau craffu fel mae Sir Ddinbych a Chonwy wedi gwneud yn ddiweddar gyda sefydliad Cydbwyllgor Craffu ar gyfer Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn flaenorol, byddai modd i gadeiryddion cydbwyllgor craffu eu talu, er penderfynodd Sir Ddinbych a Chonwy i beidio â gwneud hynny. Tynnwyd y dewis i dalu cadeiryddion cydbwyllgorau craffu gan y Panel gyda'r adroddiad blynyddol hwn.
- 4.17 Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned – Yn bwysig o safbwynt cynghorau tref, dinas a chymuned (cyfeirir atynt i gyd fel 'cynghorau cymuned' yma) mae'r Panel wedi gosod y cynghorau cymuned i dri grŵp (A, B a C) yn seiliedig ar eu hincwm neu wariant y llynedd, pa bynnag un sydd uchaf. Mae'r rhai ag incwm neu wariant o dan £30,000

yng Ngrŵp C, rhwng £30,000 a £199,999 yng Ngrŵp B a'r rhai ag incwm neu wariant o £200,000 neu uwch yng Ngrŵp A (gweler tabl 9 yn adroddiad y Panel).

- 4.18 Mae'n rhaid i gynghorau cymuned ymhob grŵp sicrhau taliad o £150 y flwyddyn i bob aelod ar gyfer y costau a ysgwyddir ar fusnes y Cyngor e.e. y gost o ddefnyddio'r ffôn a TG. Mae hyn yn wahanol i 2018 / 19, gyda grwpiau A a B cynghorau cymuned yn unig rhoi'r cynnig i wneud y taliad hwn. Nid oes angen derbynebau ar gyfer y taliadau hyn.
- 4.19 Mae'n rhaid i gynghorau cymuned Grŵp A wneud taliad blynyddol o £500 yr un i o leiaf un o'u haelodau a hyd at 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol i'r taliad o £150 ar gyfer costau a threuliau. Gall cynghorau Grŵp B a C benderfynu a ydynt am wneud taliad o £500 i hyd at 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol (yn ychwanegol i'r taliadau o £150 ar gyfer costau a threuliau).
- 4.20 Ni all cynghorwyr sir ar y Cabinet dderbyn unrhyw daliad gan gyngor cymuned ar wahân i dreuliau teithio a chynhaliadaeth ac ad-daliad am gostau gofal. Fodd bynnag, nid yw hyn yn eu heithrio rhag cymryd rôl uwch a fyddai'n atynnu taliad fel arall.

## **5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r penderfyniadau a wneir gan y Panel ac nid yw ynddo'i hun yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol.

## **6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae adroddiad blynyddol y Panel i raddau helaeth yn parhau â lefelau talu 2018/2019. Mae'r cynnydd o ran cyflog sylfaenol yn cyfateb i £12,596 ar gyfer pob Aelod. Bydd cynnydd yn nhaliadau aelodau Cabinet yn £4,256 a'r taliadau dinesig yn cynyddu o £3,500.

## **7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Gwneir yr adroddiad hwn yn unol â rhwymedigaethau statudol a phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar gyfer yr adroddiad hwn.

## **8 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Mae'r Panel yn ymgynghori'n genedlaethol ar gynnwys drafft pob adroddiad blynyddol.

## **9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oedd angen datganiad ganddo ar gyfer yr adroddiad hwn.

## **10 Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'n rhaid i fwyafrif y taliadau (cyflogau sylfaenol, arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf, aelodau cyfetholedig gyda hawliau pleidleisio) a nodir yn yr adroddiad blynyddol fod ar gael i aelodau ac aelodau cyfetholedig ac mae cyllideb wedi'i ddyrannu i dalu am y taliadau.

## **11 Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 111 Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011